# Tu Hwnt i'r Sefydliad Affricanaidd



Roedd y prosiect **Tu Hwnt i'r Sefydliad Affricanaidd** yn archwilio'r cyswllt rhwng Tŷ Congo / Sefydliad Affricanaidd Bae Colwyn a Nelson Mandela. Aeth cyn fyfyriwr o'r Sefydliad o'r enw Davidson Don Tengo Jabavu ymlaen i fod yn sefydlydd Prifysgol Fort Hare yn Ne Affrica. Yno, daeth yn fentor i Nelson Mandela.

Cafodd yr artist a'r siaradwr o Cameroon, Mfikela Jean Samuel, ei gomisiynu i greu gwaith celf sy'n taflu goleuni ar y cyswllt rhwng y Sefydliad a Mandela. Mae ei baentiad o'r enw 'Bridging continents: The African Institute of Colwyn Bay and Mandela's teacher' bellach yn rhan o gasgliad Gwasanaeth Amgueddfeydd Conwy. Aeth myfyrwyr o Ysgol Pen y Bryn ac Ysgol Bod Alaw, Bae Colwyn draw i Ganolfan Ddiwylliant Conwy i greu murluniau wedi'u hysbrydoli gan y paentiad a dysgu am yr hanes y tu ôl i'r stori leol bwysig hon.

"I mi mae'r paentiad yn archwiliad creadigol ac yn fy atgoffa o etifeddiaeth Tŷ Congo yn gyffredinol a'r cysylltiad rhwng Tŷ Congo a'r ymladdwr rhyddid Nelson Mandela yn benodol. Roedd yn gysylltiedig â fy niddordeb a rhoddodd gyfle i mi gyfrannu ychydig bach at gymuned (gogledd Cymru) yr wyf bellach yn ei galw yn gartref."
– **Mfikela Jean Samuel**



**Crëwyd yn ystod 2024, gyda chyfraniadau gan Wasanaeth Amgueddfeydd Conwy, Archifau Conwy, a'r artist Mfikela Jean Samuel.**


Llywodraeth Cymru Welsh Government

Association of Independent Museums – Helping Heritage Organisations Prosper

Canolfan Ddiwylliant Conwy Culture Centre

Conwy – Cyngor Bwrdeistref Sirol County Borough Council